

BEDD GELERT

Gelert oedd hoff gi hela'r Brenin, Llywelyn Fawr, ond yr oedd yn mynd yn hen, ac nid oedd mwyach yn medru cadw i fyny gyda'r helfa nag ysgyfarnog na hydd. Serch hynny, cadwodd Llywelyn ef yn agos, yn gydymaith cyson wrth iddo deithio o lys i lys i gwrdd â'i bobl a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud drwy gydol ei dir. Yn ôl yn y cartref, ymhlith y teulu, roedd Gelert yn ffefryn gan bawb am ei addfwynder a'i natur dda, ac yn aml yn cael ei adael i warchod mab bychan Llywelyn,

Lleolwyd un o lysoedd Llywelyn ger pentref Beddgelert heddiw. Yma yn yr haf, byddai Llywelyn a'i wraig a'u Teulu gorffwys am ychydig ddyddiau ar eu ffordd o lys i lys i fwynhau'r hela da yn y dyffryn coediog. Ar un achlysur o'r fath, cafodd y frenhines ei galw i ymweld ag offeiriad lleol, ar yr union ddiwrnod yr oedd Llywelyn a'i ddynion wedi cynllunio i fynd hela. Ac felly, yn anfodlon, gadawodd Llywelyn Gelert, yr hen gi ffyddlon gyda nyrs y baban i wyllo dros y tywysog bychan, ac yna carlamodd i ffwrdd.

Trodd y bore poeth yn brynhawn hyfryd, euraidd. Pendwmpiodd y mewn cadair dan gysgod coeden afal wrth iddi siglo'r tywysog yn ei grud. Cafodd ei deffro o'i chwsg gan y cogydd yn galw am ei chymorth gyda rhyw neges neu'i gilydd. Yn meddwl dim mohono, gadawodd Gelert i warchod y tywysog. Doedd ganddi'r un syniad bod blaidd llwglyd wedi bod yn gwyllo gerllaw, ac o weld ei gyfle, yn sleifio tuag at y coed a chrud y baban.

Ychydig yn ddiweddarach, dychwelodd Llywelyn a'i ddynion a phentwr o ysgyfarnogod yn barod ar gyfer swper. Daeth Gelert, ai gynffon yn ysgwyd i gyfarch ei feistr yn serchus, ond roedd genau'r hen gi yn waedlyd. Dychrynodd Llywelyn, rhuthrodd i'r feithrinfa i chwilio am ei fab, a'i gael yn wag. Gwelodd bod y drws ar agor i'r berllan tu hwnt, a rhedodd allan i weld crud y tywysog bach yn wyneb i waered a gerllaw, blanced waedlyd. Yn ei alar dall, tynnodd Llywelyn ei gleddyf a'i daro i ystlys Gelert. Wrth i'r ci annwyl farw, gollyngodd un waedd boenus a dyma'r sŵn crio'r tywysog bach yn dod o dan y crud. Death Llywelyn o hyd i'r plentyn yn ddiogel ac yn ddianaf, ac wedi ei guddio gerllaw, yng nghysgod y goeden afal, corff marw blaidd tenau, llwglyd.

Yn llawn galar, cydiodd Llywelyn gorff difywyd Gelert ato. Addawodd anrhydeddu'r ci dewr a oedd wedi amddiffyn y tywysog bach wrth y blaidd. Cadwodd Llywelyn ei air, ac adeiladodd fedd arbennig. Caiff ei ymweld gan filoedd hyd heddiw, ac mae'r stori a'r bedd wedi rhoi enw i'r pentref cyfagos, Beddgelert.